ARDALOEDD INFERTEBRATAU PWYSIG

# Beth yw Ardaloedd Infertebratau Pwysig?






Chwith: Traeth y 'Three Cliffs Bay' © Allan Hopkins (CC BY-NC-ND 2.0), De: Y Mynyddoedd Duon, Talgarth © Les Haines (CC BY 2.0)

**Mae Ardaloedd Infertebratau Pwysig (AIP) yn fannau o bwys cenedlaethol neu ryngwladol ar gyfer infertebratau a'u cynefinoedd. Maent yn adnodd hanfodol ar gyfer helpu i warchod ein rhywogaethau a'n casgliadau sydd dan fwyaf o fygythiad. Gallant helpu i gyfarwyddo ymdrechion cadwraeth ar gyfer infertebratau a sicrhau bod gwell penderfyniadau'n cael eu gwneud i adfer poblogaethau cynaliadwy ohonynt.**

## Pam mae angen AIP?

Mae Prydain Fawr yn gartref i dros 40,000 o rywogaethau o infertebratau. Maent yn hanfodol ar gyfer ein bywydau, ac yn sail ar gyfer y gwasanaethau ecosystem sy'n darparu bwyd inni, priddoedd ffrwythlon, dŵr glân, a'r cynefinoedd llawn bywyd gwyllt yr ydym i gyd yn eu mwynhau. Fodd bynnag, mae llawer o infertebratau'n dirywio o ganlyniad i ddarnio a cholli cynefin ar raddfa eang, trefoli, newid mewn arferion rheoli tir, llygredd, rhywogaethau estron goresgynnol a llu o ffactorau eraill. Heddiw, mae'n bwysicach nac erioed i ni annog poblogaethau cynaliadwy o infertebratau ac atal difodiant infertebratau yn y DU.

Er mwyn sicrhau dyfodol infertebratau, mae'n hanfodol inni wybod ble mae ein rhywogaethau a'n casgliadau sydd dan fwyaf o fygythiad yn byw. Trwy Brydain gyfan, mae rhai o'n lleoliadau adnabyddus a phroffil uchel ar gyfer infertebratau'n elwa o warchodaeth ffurfiol, ond yw gwarchod y detholiad bychan hwn o safleoedd yn ddigon o ystyried y pwysau presennol sy'n wynebu ein bywyd gwyllt? Ni ellir ystyried y safleoedd hyn yn unigol, ond fel rhan o agwedd graddfa dirwedd tuag at gadwraeth infertebratau, sy'n annog gweithredu cadarnhaol ar gyfer infertebratau. Rydym angen Ardaloedd



Map o hectadau AIP cenedlaethol (sgwariau 10km x 10km)





Chwith: Corryn Neidio'r Hesg (*Attulus caricis*) © Mark Gurney (CC BY-NC-SA 2.0), De: Y pryf cerrig prin *Isogenus nubecula* © John Davy-Bowker

Infertebratau Pwysig.

## Sut gafodd yr AIP eu dethol yn genedlaethol?

Dynodwyd y rhwydwaith AIP gan ddefnyddio cyfoeth o ddata o'r cynlluniau cofnodi infertebratau cenedlaethol - dros 45 miliwn o gofnodion gan 80 o gynlluniau cofnodi arbenigol cenedlaethol. Defnyddiwyd adolygiadau statws cyfoes o ba mor brin neu dan fygythiad yw rhywogaethau, ynghyd â barn arbenigol, i ddynodi cyfres o rywogaethau cymwys AIP.

Yn genedlaethol, mae hectad (sgwariau 10km x 10km) yn cymhwyso fel rhan o AIP os yw un ai:

- Yn cynnal rhywogaeth sydd Mewn Perygl Difrifol yn genedlaethol, Mewn Perygl ar lefel Ewropeaidd neu fyd-eang, neu sy'n rhywogaeth endemig. Y rhain yw ein rhywogaethau prinnaf neu sydd dan fwyaf o fygythiad, sy'n golygu bod cyfrifoldeb arbennig arnom i weithredu a'u gwarchod. **Neu**
- Yn cynnal casgliad o bwys cenedlaethol o rywogaethau prin neu sydd dan fygythiad.


Yna, cafodd yr hectadau hyn eu grwpio'n AIP gydag enw adnabyddus, fel y New Forest, Cymoedd De Cymru neu Strathspey. Mae'n bwysig nodi y gall cynefinoedd y tu allan i AIP ddal fod yn gartref i infertebratau prin ac sydd dan fygythiad sydd angen eu gwarchod. Bydd data ac adolygiadau statws newydd ar gael yn barhaus - a dyma pam fod methodoleg yr AIP wedi'i dylunio i gael ei hail-adrodd yn y blynyddoedd i ddod, er mwyn ymateb i gyflwr newidiol ein poblogaethau o infertebratau. Cynghorwyd ar y broses hon gan grŵp llywio o arbenigwyr ar infertebratau, cofnodi a data.


## Mapio AIP

Er y bu dynodi'r hectadau pwysicaf ar gyfer infertebratau'n genedlaethol yn gam cyntaf pwysig, mae'r sgwariau grid mawr hyn yn cynnwys llawer o ardaloedd sydd o lai o bwys. Er mwyn sicrhau y gall AIP wir adlewyrchu'r ardaloedd gorau ar gyfer infertebratau, mae angen map graddfa-fân, wedi ei seilio ar a'i arwain gan arbenigedd a gwybodaeth leol.

Ar gyfer AIP oedd yn gymwys am rywogaeth unigol sydd o'r pryder pennaf, roedd hyn yn gymharol ddidrafferth. Fodd bynnag, ar gyfer AIP mawr a chymhleth, derbyniwyd data oddi wrth Ganolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol a'u cyfuno â'r data cenedlaethol i greu mapiau o gofnodion rhywogaethau cymwys gafodd eu harchwilio gan entomolegwyr a naturiaethwyr lleol. Cynhyrchodd hyn fapiau graddfa-fân sy'n adlewyrchu'n gywir y diddordeb

Chwith: Mae AIP Arfordir De Cymru yn cynnal casgliad o infertebratau o bwys cenedlaethol, De: Mae AIP De Esk yn cynnal Misglen Berlog yr Afon (*Margaritifera margaritifera*) sydd Mewn Perygl Difrifol









Chwith: Britheg Berlog (*Boloria euphrosyne*) © Andrew Cooper, butterfly- conservation.org, De: Y neidr gantroed *Hydroschendyla submarina* © Tony Barber

infertebratau allweddol a'r cynefinoedd craidd sy'n eu cynnal ar lawr gwlad.

## Gwneud AIP yn hygyrch

Unwaith i AIP gael ei mapio ar raddfa-fân bydd ar gael ac yn hawdd i'w deall trwy:

- Ei ychwanegu i'r map AIP rhyngweithiol ar-lein.
- Rhannu dogfen broffil AIP fydd yn egluro ei chynefinoedd a'i phwysigrwydd i infertebratau. Yn ogystal, bydd y proffil yn enwi rhywogaethau a chasgliadau allweddol, yn ogystal â'r bygythiadau a'r cyfleoedd lleol sy'n effeithio ar infertebratau yn y dirwedd.
- Rhannu'r map graddfa-fân, y gellir ei lawrlwytho, mewn amrywiol fformatau yn cynnwys ffeiliau PDF, Google Earth a GIS.

## Sut all AIP helpu infertebratau?

Gall cefnogi adferiad infertebratau fod yn gymhleth - ceir amrywiaeth aruthrol o rywogaethau, i gyd â gwahanol fywydau, gwahanol anghenion ecolegol, a gwahanol wasgariadau. Un o nodau'r rhaglen AIP yw gwneud hyn yn haws - i gymryd gwybodaeth dechnegol gymhleth a'i throsi a'i phuro'n fformat sy'n hygyrch a defnyddiol. Bydd hyn yn sicrhau bod ecolegwyr, cynllunwyr, awdurdodau lleol, cyrff statudol, sefydliadau cadwraeth, rheolwyr tir a llunwyr penderfyniadau eraill yn gallu deall yn well bwysigrwydd y dirwedd ar gyfer infertebratau a gwneud penderfyniadau sydd wedi'u hysbysu'n well i gefnogi adferiad natur. Bydd cyfres gyflawn o fapiau a phroffiliau AIP yn galluogi:

- Ffocysu effeithlon ymdrechion cadwraeth infertebratau ledled Prydain Fawr i ble sydd ei angen fwyaf. Mae hyn yn cynnwys rheolaeth gyd-drefnus cynefinoedd penodol ar gyfer rhywogaethau a chasgliadau ar draws safleoedd mewn AIP.
- Adolygiad o effeithlonrwydd Rhwydweithiau Ardaloedd Gwarchodedig fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig wrth gynrychioli'r safleoedd pwysicaf ar gyfer infertebratau.
- Deilliannau cynllunio gwell ar gyfer infertebratau, trwy helpu i adnabod cynefinoedd pwysig ar gyfer infertebratau, cyn gynted â phosibl.
- Strategaethau ar raddfa tirwedd fel rhwydweithiau adfer natur er mwyn corffori'n well anghenion rhywogaethau infertebratau fel na chollir cyfleoedd i gefnogi adferiad rhywogaethau.
- Proffil mwy amlwg ar gyfer cymunedau infertebratau, yn cynnwys rhywogaethau a grwpiau llai adnabyddus.
- Hybu nodweddion cynefin graddfa fechan, gaiff eu hanwybyddu'n aml, all fod yn bwysig ar gyfer infertebratau ond sy'n cael eu hesgeuluso'n aml.

Dros y blynyddoedd nesaf cynhyrchir rhwydwaith cyflawn o fapiau graddfa-fân, proffiliau a dogfennau arweiniad i hysbysu llunio penderfyniadau a'u rhyddhau ar wefan Buglife. Am fwy o wybodaeth a diweddariadau ewch i: [https://www.buglife.org.uk/our-work/ardaloedd-infertebratau-pwysig/](https://www.buglife.org.uk/our-work/ardaloedd-infertebratau-pwysig/)

**Awdur:** Jamie Robins

**Dyddiad:** Mawrth 2024 **Fersiwn rhif:** 1.1



Mae Buglife -The Invertebrate Conservation Trust yn elusen gofrestredig yn

G.06, Allia Future Business Centre, London Road, Peterborough, PE2 8AN

Cwmni rhif 4132695, Elusen gofrestredig rhif 1092293, Rhif elusen Yr Alban SC040004